

# Cynnig i Newid Natur y Ddarpariaeth yn Ysgol Y Felin

## Dogfen Ymgynghori



[sirgar.gov.uk](http://sirgar.gov.uk)

Cyngor **Sir Gâr**  
**Carmarthenshire**  
County Council



## **Yr Adain Moderneiddio Ysgolion**

**Sara Griffiths**, Rheolwr y Tîm Moderneiddio

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras, mewn Braille, neu ar dâp sain, cysylltwch â'r Adran Addysg a Phlant

**E-bost:**

**[aaprma@sirgar.gov.uk](mailto:aaprma@sirgar.gov.uk)**

**Ffôn: 01267 246476**

## Rhagair

Ar 25 Mehefin 2018, yn unol â Chynlluniau Strategol Llywodraeth Cymru, lansiodd yr Awdurdod Lleol [Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin](#) a'n gweledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin ddwyieithog. Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn sicrhau twf sylweddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg i gynyddu nifer y plant a phobl ifanc sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg ac sydd â'r gallu i ddefnyddio'u hieithoedd yn hyderus gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.

Gan gofio hyn, mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb i ddarparu'r addysg a'r cyfleoedd gorau posibl i'w gymunedau ac mae'n credu y gellir cyflawni hyn drwy amcanion penodol. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gwbl gefnogol i'r nod bod yr holl ddisgyblion yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 a bydd yn darparu gwasanaethau a fydd yn sicrhau cyfleoedd dysgu o ansawdd da ar gyfer holl blant, pobl ifanc ac oedolion Sir Gaerfyrddin, a thrwy hynny'n eu galluogi i wireddu eu llawn botensial fel dysgwyr gydol oes yng nghydestun natur ddwyieithog unigryw'r Sir.

Mae'r Awdurdod Lleol nid yn unig yn cefnogi'r weledigaeth hon, ond mae'n llwyr gefnogol i Gymru ddwyieithog. Ar 10 Gorffennaf 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg" gyda'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Mae'r ddogfen yn rhoi ystyriaeth i dair prif thema:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg;
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; a
- Creu amodau, seilwaith a chyd-destun ffafriol

Mae'n rhaid inni ystyried pob un o'r rhain yn ein hardal leol ein hunain lle y gall ein system addysg gefnogi, datblygu a chynnal dwyieithrwydd.

Er mwyn cefnogi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin a pholisïau cenedlaethol o ran symud ysgolion y sir ar hyd continwrm y Gymraeg, mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi cynigion o ran newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol y Felin.

Bydd y broses ymgynghori yn dilyn y canllawiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru fel y nodwyd yng [Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2018](#) ac yn cynnwys partion penodol sydd â diddordeb. Bwriedir i'r wybodaeth a geir yn y ddogfen hon egluro'r cynigion ynghylch eich ysgol a chynorthwyo'r broses ymgynghori.



**Gareth Morgans**

**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant**

## Rhestr Byrfoddau

<b>ADY</b>	Anghenion Dysgu Ychwanegol
<b>ALI</b>	Awdurdod Lleol
<b>CALL</b>	Cyferwerth ag Amser Llawn
<b>CC</b>	Cynradd Cymunedol
<b>CC</b>	Cyfrwng Cymraeg
<b>CS</b>	Cyfrwng Saesneg
<b>CSC</b>	Cyngor Sir Caerfyrddin
<b>CSCA</b>	Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
<b>CYBLD</b>	Data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion
<b>DFf</b>	Dwy Ffrwd
<b>Estyn</b>	Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
<b>LIC</b>	Llywodraeth Cymru
<b>MCYC</b>	Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru
<b>ND</b>	Nifer derbyn
<b>NOR</b>	Nifer y disgyblion ar y gofrestr
<b>RhA</b>	Rhan-amser
<b>RhMA</b>	Rhaglen Moderneiddio Addysg

## **Cynnwys**

Cyflwyniad

..... 6

Darpariaeth Drochi Gynnar drwy Gyfrwng y Gymraeg

..... 8

Dwyieithrwydd

..... 8

Y Broses Ymgynghori

..... 14

Yr Ysgol(ion) sy'n Destun y Cynnig

..... 19

Y Cynnig – Ysgol y Felin

..... 20

## **Atodiadau**

A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

..... 32

B - Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

..... 34

C – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

..... 36

## Cyflwyniad

Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar Gyngor Sir Caerfyrddin i adolygu nifer a math yr ysgolion y mae'n eu cynnal yn yr ardal ac a yw'n llwyddo ai peidio i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael i ddarparu'r cyfleoedd y mae plant yn eu haeddu.

Fel rhan o'r broses hon mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol o ran holl ysgolion cynradd ac uwchradd y Sir. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ynghylch y trefniadau addysg yn y dyfodol yn Ysgol y Felin.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn amlinellu'r ddarpariaeth a'r opsiynau presennol i benderfynu ar yr ateb gorau ar gyfer diwallu anghenion y dyfodol.

## Cefndir

Ysgol gynradd dwy ffrwd yn Felin-foel, Llanelli yw Ysgol y Felin. Mae'r ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae niferoedd disgyblion wedi aros yn gyson.

Yn seiliedig ar amcanestyniadau cyfredol ynghylch nifer y disgyblion, amcangyfrifir y bydd nifer y disgyblion yn aros yn gyson.

Cyflwr adeilad Ysgol y Felin yw **Gradd B** – Boddhaol (Perfformio fel y bwriadwyd ond yn dangos mân ddirywiad).

Barnodd arolygiad diweddaraf Estyn o'r ysgol, a gwblhawyd ym mis Medi 2016, fod perfformiad presennol yr ysgol a'r rhagolygon ar gyfer gwella yn **Dda**.

Mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am roi'r addysg orau posibl i bob disgybl ac mae'n credu bod darparu cyfleoedd dwyieithog yn chwarae rhan yn hyn. Mae hyn yn cydfynd ag un o amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2017-2020 sef *sicrhau "bod yr holl ddisgyblion yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'r iaith yn rhugl erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 yn unol â'u cam datblygiad disgwylledig."* Y ffordd orau o greu unigolion hyderus, dwyieithog yw trwy drochi disgyblion yn yr iaith Gymraeg, ac, o ganlyniad, mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu newid natur y ddarpariaeth.

# Y Rhesyw meg dros Newid

## Ysgol y Felin

Mae'r cynnig hwn wedi cael ei lunio mewn ymateb i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae gan yr Awdurdod Lleol weledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin ddwyieithog. I gyflawni hyn, byddwn yn gwneud y canlynol, yn unol â 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg': **“Sicrhau twf sylweddol mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i gynyddu nifer y bobl o bob oed sy'n dod yn rhugl mewn Cymraeg a Saesneg ac sydd â'r gallu i ddefnyddio'u hieithoedd yn hyderus gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle”**

O ganlyniad, dyma gynnig yr Awdurdod Lleol:

- O 1 Medi 2022, bydd natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol y Felin yn newid i addysg cyfrwng Cymraeg.

Bydd hyn ond yn effeithio ar ddisgyblion sy'n dechrau yn y Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol o fis Medi 2022 ymlaen.

Ni fydd yn effeithio ar ddisgyblion presennol sy'n mynychu'r ysgol.

Wrth i ddysgwyr gael addysg cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen bydd yn rhaid monitro ac adolygu gallu'r ffrwd Gymraeg yn CA2 i ymdopi â'r galw cynyddol posibl am leoedd yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin.

Bydd y cynnig hwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu cyfleoedd dwyieithog ac amlieithog yn unol â'r cwricwlwm newydd a fydd yn cael ei lansio yn 2022.

Pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu, byddai holl ddisgyblion y dyfodol yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion yn derbyn eu haddysg Cyfnod Sylfaen trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r dewis o gyfrwng iaith yn cael ei gyflwyno yng Nghyfnod Allweddol 2.

Bydd y cynnig hwn yn cyflawni'r 7 deilliant isod fel y pennwyd gan Lywodraeth Cymru yng 'Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin':

- Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg
- Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd
- Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

- Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 14–19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith
- Deilliant 5: Mwy o ddisgyblion sydd â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg
- Deilliant 6: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol
- Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus

Yn ogystal bydd y cynnig hwn yn cysylltu â pholisïau Llywodraeth Cymru fel y nodir isod:

- Ailysgrifennu'r Dyfodol
- Dyfodol Llwyddiannus
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Strategaeth Ddrafft Llywodraeth Cymru; a
- Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif

## **Darpariaeth Drochi Gynnar drwy gyfrwng y Gymraeg**

Mae'r dull trochi yn canolbwyntio ar ddefnyddio Cymraeg fel y prif gyfrwng dysgu ac addysgu, gan ddefnyddio technegau ymarferol a gweledol i helpu plant a disgyblion i ddatblygu geirfa a chystrawen. Hanfod y dull hwn yw cyflwyno a modelu iaith dda. Mae'r dystiolaeth ryngwladol hefyd yn cadarnhau mai'r 'ffordd fwyaf effeithiol i ddatblygu plant dwyieithog yw eu trochi yn yr iaith sy'n llai cyffredin tra'n datblygu hefyd eu sgiliau yn yr iaith sy'n fwy cyffredin.' Nid oes angen i blant bach ddysgu iaith yn yr un modd ag oedolion. Maent yn amsugno ieithoedd os ydynt yn eu clywed yn ddigon aml.

Dengys toreth o ymchwil bod buddsoddi ym mlynnyddoedd bore oes plentyn yn gwella'r deilliannau ar ei gyfer am weddill ei fywyd.

Bydd y newid i addysg cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen yn cryfhau sgiliau dwyieithog y disgyblion o oedran cynnar, gan osod sylfaen gadarn iddynt er mwyn datblygu eu gallu ieithyddol yn y dyfodol.

Fel y dangosir gan ymchwil, mae presenoldeb dwy iaith yn system weithredu'r ymennydd yn debygol o gynhyrchu peiriant meddwl ag adnoddau mwy cyfoethog (Baker, 2000:66-67). Felly, mae'r cynnig hwn yn darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gyrraedd eu potensial llawn fel dysgwyr dwyieithog.



# Dwyieithrwydd

## Manteision Dwyieithrwydd

### Beth yw ystyr bod yn ddwyieithog?

Y gallu i fyw eich bywyd bob dydd yn defnyddio dwy iaith.

Y gallu i newid o un iaith i'r llall yn rhugl a hyderus pan fyddwch yn dymuno.

### Manteision bod yn ddwyieithog

#### Addysg

- Mae plant dwyieithog yn tueddu i fod yn fwy llwyddiannus mewn addysg. Maent yn tueddu i gyflawni'n well mewn tasgau.
- Mae pobl ddwyieithog yn ei gweld yn haws i ddysgu ieithoedd ychwanegol.
- Mae plant mewn addysg Gymraeg yn gwneud cystal, os nad gwell, yn Saesneg â phlant sy'n cael addysg Saesneg.

Tystiolaeth:

<https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/English%20in%20k%20stages%20and%203%20-%20June%202014.pdf>

#### Gyrfa


- Mae siarad dwy iaith yn rhoi sgîl arall i'w roi ar eich ffurflen gais a'ch CV.
- Ar gyfartaledd, mae pobl ddwyieithog yn ennill 11% o gyflog ychwanegol.
- Mae angen gweithleoedd dwyieithog ar gyflogwyr, gan fod angen darparu gwasanaethau'n ddwyieithog yn unol â'r Papur Safonau Cymraeg.

Tystiolaeth: <http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/welsh-speakers-more-likely-top-6335953>

## Nigel Owens

“ Without my Welsh education in School I would not have had all the opportunities to present and perform and I would not have been encouraged to start as a referee at 16 years old.

I carry Welsh with me wherever I referee in the world. Before each game I listen to Welsh music. I'm lucky enough to have two languages and Welsh is an important part of who I am. ”



## Alex Jones

“ Having a bilingual education has been pivotal to me in so many ways. It meant that I had twice as many opportunities, it doubled my capacity to learn other languages, it enhanced my ability to communicate and therefore make friends, and most importantly, it gave me a strong sense of belonging and of our heritage. Starting out as a broadcaster in Welsh gave me the vast experience I needed to move forward to my dream job. Without a bilingual education, I'd be in a very different place. ”



### Iechyd

- Mae ymchwil yn dangos bod dwyieithrwydd yn gohirio dechreuad Dementia a symptomau eraill clefyd Alzheimer.

Tystiolaeth: <https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC3033609/http://www.telegraph.co.uk/news/science/science-news/12005837/Bilingual-people-twice-as-likely-to-recover-from-a-stroke.html>

### Bywyd

- Mae siarad dwy iaith yn ehangu eich gorwelion.
- Mae medru'r Gymraeg yn rhoi mynediad i agweddau helaeth ar ddiwylliant, hanes a hunaniaeth Cymru.

- Mae medru'r Gymraeg yn allwedd i fywyd cymunedol cyfoethog.
- Mae medru'r Gymraeg yn rhoi hunaniaeth gadarn ac ymdeimlad o berthyn.
- Mae medru newid o un iaith i'r llall yn hyderus yn magu hyder a balchder yn yr unigolyn.
- Gall pobl amlieithog fod yn fwy goddefgar tuag at ddiwylliannau eraill.

Tystiolaeth: [http://www.assembly.wales/NAfW%20Documents/paper\\_3\\_-\\_prof.\\_colin\\_baker.pdf%20-%202002092010/paper\\_3\\_-\\_prof.\\_colin\\_baker-English.pdf](http://www.assembly.wales/NAfW%20Documents/paper_3_-_prof._colin_baker.pdf%20-%202002092010/paper_3_-_prof._colin_baker-English.pdf)

## **Pryderon cyffredin rhieni**

### **'Sut alla i helpu gyda gwaith cartref fy mhlentyn os nad ydw i'n deall llawer o Gymraeg?'**

Mae ysgolion Cymraeg yn nodi cyfarwyddiadau gwaith cartref yn Gymraeg ac yn Saesneg, felly fydd dim trafferth gennych chi o ran deall pa waith sy'n rhaid i'r plentyn ei wneud. Bydd pob ysgol unigol yn fodlon cynnig cyngor ar addysg a bydd y nosweithiau rhieni yn eich dewis iaith chi.

Bydd gwaith yn cael ei osod yn addas i lefel a gallu'r disgybl. Fe fydd, felly, o fewn cyrraedd i'ch plentyn.

Wrth i blant dyfu'n hŷn a datblygu'n ddysgwyr annibynnol, efallai y byddant yn hapus i fwrw ati heb arweiniad ychwanegol gan rieni.

[Booklet - Welsh Homework? No problem](#) (fersiwn Saesneg)

[Booklet - Gwaith Cartref? Dim problem](#) (fersiwn Gymraeg)

### **'A fydd disgyblion sy'n cael trafferth ag addysg cyfrwng Cymraeg yn gorfod symud i ysgol cyfrwng Saesneg?'**

Mae'r Awdurdod Lleol am i bob disgybl gael y cyfle i ddod yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg bydd disgyblion yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf, a bydd Saesneg yn bwnc a ddysgir yng Nghyfnod Allweddol 2 ac yn gyfrwng addysgu. Rhoddir cymorth digonol i'r holl ddisgyblion yn ôl yr angen drwy amrywiaeth o ddulliau gan eu haddasu at anghenion yr unigolyn.

### **'Bydd y plant yn drysu a bydd eu Saesneg yn dioddef.'**

Ar gyfartaledd, mae plant dwyieithog yn cyflawni'n well yn Saesneg. Hefyd, drwy esbonio'r gwaith cartref i'w rhieni yn Saesneg, mae'r plentyn yn atgyfnerthu ei wybodaeth, a dyfnhau ei ddealltwriaeth ei hun. Gofynnwch i'ch plentyn ddisgrifio yr hyn y mae'n ei gwneud yn ei eiriau ei hun.

Ar gyfartaledd, mae tua 80% o ddisgyblion Sir Gaerfyrddin sy'n derbyn addysg Gymraeg yn cael A\* i C yn eu TGAU Saesneg a Chymraeg.

### **'A fydd bod yn ddwyieithog yn effeithio ar feddwl fy mhlentyn?'**

Yr ateb yw 'bydd', a hynny mwy na thebyg er gwell. Mae presenoldeb dwy iaith yn system weithredu'r ymennydd yn debygol o gynhyrchu peiriant meddwl ag adnoddau mwy cyfoethog (Baker, 2000:66-67).

### **'A fydd fy mhlentyn yn gallu ymdopi â dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg?'**

Mae'r ysgol a'r staff wedi ymrwymo'n llawn i ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol i'r holl ddisgyblion a rhieni drwy amrywiaeth eang o ddulliau: polisi drws agored; darparu gwaith cartref yn ddwyieithog; cefnogaeth gan Wasanaeth yr Athrawon Bro; gwefan ysgol ddwyieithog ac ati. Hefyd mae'n ofynnol i'r staff wahaniaethu'r cwricwlwm a gwneud addasiadau rhesymol pan fo'r angen i ddiwallu anghenion pob disgybl.

### **'A ddylid gorfodi'r Gymraeg?'**

Mae'r dystiolaeth ryngwladol, fel a ddyfynnir gan Lywodraeth Cymru, yn cadarnhau mai'r ffordd fwyaf effeithiol i ddatblygu plant dwyieithog yw eu trochi yn yr iaith sy'n llai cyffredin yn ogystal â datblygu hefyd eu sgiliau yn yr iaith sy'n fwy cyffredin. Mae hyn yn gyson â'r polisi cenedlaethol i helaethu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n gwbl ddwyieithog, ac er mwyn galluogi rhagor o blant i elwa ar fanteision dwyieithrwydd - a gadarnheir gan waith ymchwil rhyngwladol.

### **'A fydd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn effeithio ar gyfleoedd yn y dyfodol?'**

Yr ateb yw 'bydd', ond mwy na thebyg er gwell. Barn yr adran, ar sail tystiolaeth ryngwladol a phrofiad lleol, yw bod pob plentyn yn elwa ar addysg wirioneddol ddwyieithog, sy'n datblygu sgiliau ehangach, megis gwell gallu gwybyddol, gwell dealltwriaeth a hyblygrwydd wrth gyflawni tasgau, gwell pwerau canolbwytio ac ati, ac y dylai pob plentyn dderbyn y cyfleoedd hyn. Hefyd mae bod yn ddwyieithog neu'n amlieithog yn ehangu profiadau diwylliannol unigolion ac yn gallu gwella rhagolygon gyrfa. Gydag amser bydd dwyieithrwydd yn sgil mwyfwy pwysig yn y byd gwaith a chydag amser bydd meddu ar sgiliau Cymraeg yn rhoi mwyfwy o fantais gystadleuol i unigolion wrth chwilio am waith.

### **'A yw dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn gwahanu disgyblion/teuluoedd sy'n siarad Saesneg?'**

I'r gwrthwyneb, mae dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhoi cyfle i'r holl blant fod yn gwbl ddwyieithog a meddu ar y sgiliau i allu darllen, ysgrifennu a siarad yn Gymraeg a Saesneg erbyn iddynt adael ysgol gynradd. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg mae'r plant yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf, a bydd Saesneg yn bwnc a ddysgir yng Nghyfnod Allweddol 2 ac yn gyfrwng addysgu. Mae dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg hefyd yn helpu aelodau'r gymuned/teulu drwy roi cyfle iddynt ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

## **‘A fydd plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg?’**

Polisi Cyngor Sir Caerfyrddin yw y dylai ei holl ysgolion fod yn gynhwysol, a bod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu haddysgu mewn lleoliad prif ffrwd ochr yn ochr â'u cyfoedion ble bynnag y bo modd. Mae modd gwneud hyn yn y rhan fwyaf o ddigon o'r achosion, sydd o fudd i'r holl blant. Mae gan yr holl ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau unigol penodol sy'n seiliedig ar eu hamgylchiadau, a darperir rhaglen gymorth bwrpasol i gyd-fynd ag anghenion yr unigolyn. Yn gyffredinol nid yw 'angen dysgu ychwanegol' yn rhwystr o ran dysgu dwy iaith. Fodd bynnag, bydd achosion prin pan fydd plentyn yn cael diagnosis o gyflwr sy'n golygu nad yw addysg gwbl ddwyieithog yn addas i'r plentyn. Dan amgylchiadau o'r fath mae ymarferwyr proffesiynol yn llunio pecyn cymorth ac yn ei drafod â'r rhieni.

## **Canolfannau iaith Sir Gaerfyrddin**

Oherwydd natur y sir mae angen inni ddarparu gwasanaeth iaith i'r holl hwyrddyfodiaid fel y gallant gael eu cymhathu'n llawn yn ein cymunedau dwyieithog a chael eu trochi yn yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen inni fynd i'r afael â phwysigrwydd cyfleusterau pwrpasol i helpu hwyrddyfodiaid i gyrraedd lefel lle gallant integreiddio'n hawdd i'r amserlen ddyddiol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Dengys ymchwil drylwyr fod modd cyflawni hyn yn haws drwy gyrsiau iaith dwys. Canolfannau iaith yw'r cyfrwng sydd ei angen i wireddu hyn. Fel y crybwyllwyd uchod, bydd y canolfannau iaith hefyd yn darparu cymorth iaith i rieni a disgyblion ac yn cynnig darpariaeth ar gyfer dysgu proffesiynol a Chymraeg i Oedolion.

## **Dwyieithrwydd yn Sir Gaerfyrddin**

Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy ddefnyddio'r dolenni canlynol:

- **Cymraeg gyda'r plant / Welsh with your kids - rhowch gynnig arni!**

<http://newsroom.carmarthenshire.gov.uk/media/1214148/gd4808-taflencymraeqiplant4-002.pdf>

Yn y llyfryn hwn gwelwch nifer o eiriau ac ymadroddion Cymraeg defnyddiol y gellir eu defnyddio i ymarfer y Gymraeg gyda phlant ifanc. Bydd hyn yn eu helpu i siarad yn naturiol ac yn hyderus.

- **Bod yn Ddwyieithog... yn Sir Gâr / Being Bilingual... in Carmarthenshire**

<https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1216432/being-bilingual.pdf>

Mae'r llyfryn hwn yn esbonio ystyr bod yn ddwyieithog yn ogystal â thynnu sylw at fanteision bod yn ddwyieithog mewn meysydd megis addysg, gyrfa, iechyd a bywyd. Yn ogystal, yn y llyfryn hwn cewch atebion i nifer o bryderon cyffredin rhieni ynghylch y Gymraeg.

- **Croeso i Gymru**    **Croeso i Sir Gâr**    **Croeso i'r Gymraeg**

<http://newsroom.carmarthenshire.gov.wales/media/1216436/welcome-pack.pdf>

Paratowyd y llyfryn hwn gan Gyngor Sir Caerfyrddin i groesawu newydd-ddyfodiaid i'w sir ddwyieithog. Yn y llyfryn cewch wybodaeth am sut y defnyddir y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin ynghyd â manylion am ble y gallwch gael cymorth o ran y Gymraeg a gwefannau defnyddiol i ddatblygu eich sgiliau Cymraeg

## Y Broses Ymgynghori

Bydd yr ymgynghori ynghylch y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r hyn a nodwyd yn y Côt Trefniadaeth Ysgolion (2018).

### Â phwy yr ymgynghorir?

Anfonir y ddogfen hon at y partïon canlynol sydd â diddordeb, sef:

Staff (Athrawon a Staff Atodol)	Cyfarwyddwyr Addysg - yr holl Awdurdodau Cyfagos
Llywodraethwyr a Rhieni/Gwarcheidwaid	Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig Rufeinig
Cynghorwyr Sir Lleol	Estyn
Cynghorwyr Cymuned	Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol
Aelodau o'r Senedd (AS) / Aelodau Rhanbarthol / Aelod Seneddol (AS)	Ysgolion Cynradd ac Uwchradd cyfagos
Gweinidogion Llywodraeth Cymru	Yr holl undebau perthnasol
Partneriaid AAA	Comisiynydd y Gymraeg
Is-adran Anghenion Addysgol Arbennig yr Awdurdod Lleol	Y Comisiynydd Heddlu a Throseddau Lleol
ERW – Ein Rhanbarth ar Waith	Dechrau'n Deg
	Gofal Plant / Blynyddoedd Cynnar
Cymunedau am Waith a Mwy	Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Cymunedau am Waith	Y Gronfa Waddol
Cyfuno	Teuluoedd yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin

***\*Anfonir copïau o'r ddogfen ymgynghori at Benaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr yr ysgolion yn nalgylch cyfagos yr ysgolion sy'n destun y cynnig.***

## Y Cyfnod Ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion yn dechrau ar 22 Chwefror 2021 ac yn dod i ben ar 4 Ebrill 2021.

Gall ymgynghoreion gyflwyno'u sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig. Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymuna ymgynghoreion wrthwynebu, bydd angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol y manylir arno ar dudalen 16.

### Ystyried eich sylwadau

Yn ystod y cyfnod ymgynghori gallwch ofyn cwestiynau a mynegi eich barn drwy ysgrifennu llythyr i'r cyfeiriad isod neu drwy lenwi arolwg ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol: [AROLWG SNAP](#)

Dylid anfon llythyrau i'r cyfeiriad canlynol heb fod yn hwyrach na 4 Ebrill 2021:

Mr Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,  
Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB  
Neu drwy e-bost at: [aaprma@sirgar.gov.uk](mailto:aaprma@sirgar.gov.uk)

### Sesiynau galw heibio

Oherwydd goblygiadau parhaus y pandemig Coronafeirws, cynhelir y sesiwn galw heibio ar ffurf rithwir drwy Microsoft Teams ar **10 Mawrth 2021 am 4:30pm am gyfnod o ddwy awr**. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn addas i chi, gallwn gynnig dulliau cyfathrebu amgen fel e-bost neu alwad ffôn.

Os hoffech ddod i'r sesiwn galw heibio rithwir, cysylltwch â Mr Roger Bowen drwy'r cyfeiriad ebost uchod i fynegi eich diddordeb erbyn **8 Mawrth 2021**.

### Ymgynghori â Disgyblion

Bydd cyfle i ddisgyblion yr ysgol sy'n destun y cynigion gymryd rhan yn y broses ymgynghori.

Bydd y wybodaeth a gesglir o'r sesiynau ymgynghori â'r disgyblion yn rhan o'r adroddiad ymgynghori a gyflwynir i'r Bwrdd Gweithredol i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.



## **Adroddiad Ymgynghori**

Bydd adroddiad ymgynghori'n cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf 2 wythnos cyn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid bwrw ymlaen i gyhoeddi hysbysiad statudol. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r materion hyn. Hefyd bydd yr adroddiad yn cynnwys barn Estyn ynghylch y cynnig a manylion am yr ymgynghori a gynhaliwyd â'r disgyblion.

Bydd Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ydynt am fynd ymlaen â'r cynnig ai peidio.

Os yw'r Bwrdd Gweithredol yn penderfynu mynd ymlaen â'r cynnig mae'n rhaid i Gyngor Sir Caerfyrddin gyhoeddi hysbysiad statudol.

## **Hysbysiad Statudol**

Bydd yr hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin a'i osod yn yr ysgolion sy'n destun cynigion. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgolion eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost).

### **Cyfnod Gwrthwynebu Statudol**

Bydd yr hysbysiad statudol yn amlinellu manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny'n ysgrifenedig cyn pen 28 o ddiwrnodau. Os derbynnir gwrthwynebiadau cyhoeddir adroddiad ynghylch y gwrthwynebiadau ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r gwrthwynebiadau hynny.

## **Penderfynu ar y Cynnig**

Cyngor Sir Caerfyrddin fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig â newidiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor Sir yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.

### **Rhoi gwybod am y penderfyniad**

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

## Amserlen y Broses Statudol

Bydd y broses statudol a'r amserlen fel a ganlyn:

22 Chwefror 2021	Dosbarthu'r Ddogfen Ymgynghori hon i bartïon penodol a phartïon eraill sydd â diddordeb.
4 Ebrill 2021	Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau ar y cynnig i'r Adran Addysg a Phlant.
27 Ebrill 2021	<p>Bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol er mwyn penderfynu a ddylid mynd ati i gyhoeddi hysbysiad statudol ai peidio. NEU fel arall, daw'r cynnig i ben.</p> <p>Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf 2 wythnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol.</p> <p>Os gwneir y penderfyniad i fwrw ymlaen yna cyhoeddir hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Cyngor a'i arddangos ger mynedfa'r ysgol a'r ysgolion sy'n destun y cynigion. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i'r rhieni, i'r gwarcheidwaid, ac i'r staff. Ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad caniateir cyfnod o 28 diwrnod pryd y gwahoddir gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol.</p> <p>Bydd yr hysbysiad statudol yn rhoi manylion ynghylch y modd y gallwch gofnodi eich gwrthwynebiadau i'r cynnig.</p>
8 Mehefin 2021	Diwedd y cyfnod hysbysu ffurfiol o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Y Cyngor Sir fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig gyda newidiadau, ac wrth benderfynu bydd yn rhoi ystyriaeth i unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.
Gorffennaf 2021	<p>Y dyddiad olaf o ran rhoi gwybod i'r rhieni am y bwriad i roi'r cynnig ar waith.</p> <p>Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.</p>

## Yr ysgol sy'n destun y cynnig

		<b>Ysgol y Felin</b>
<b>Lleoliad yr Ysgol</b>		Ynyswen, Felin-foel, Llanelli. SA14 8BE
<b>Ystod Oedran</b>		4 – 11
<b>Categori'r Ysgol</b> (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyr, Gwirfoddol a Reolir)		Cynradd Cymunedol
<b>Categori laith</b>		Dwy Ffrwd
<b>Nifer y disgyblion ar y gofrestr (lonawr 2020)</b>	<b>Oedran Meithrin</b>	17
	<b>Derbyn – B.6</b>	205
	<b>Cyfanswm</b>	222 <b>(ac eithrio'r Uned Arbennig)</b>
<b>Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol</b>	<b>lonawr 2019</b>	219
	<b>lonawr 2018</b>	222
	<b>lonawr 2017</b>	226
	<b>lonawr 2016</b>	224
<b>Amcanestyn iadau o Nifer y Disgyblion</b>	<b>lonawr 2021</b>	218
	<b>lonawr 2022</b>	220
	<b>lonawr 2023</b>	217
	<b>lonawr 2024</b>	217
	<b>lonawr 2025</b>	215
<b>Nifer y lleoedd (yn cynnwys oedran meithrin)</b>		240
<b>Cost fesul disgybl</b>		£5,125
<b>Cyllideb yr Ysgol</b>		£1,138,000
<b>Canlyniad Arolygiad Estyn</b>		<a href="#">ESTYN</a>
<b>Categori Cyflwr Adeilad</b>		B

## Y Cynnig

- O 1 Medi 2022, bydd natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Model yn newid i addysg cyfrwng Cymraeg.

Bydd hyn ond yn effeithio ar ddisgyblion sy'n dechrau yn y Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol o fis Medi 2022 ymlaen.

Ni fydd yn effeithio ar ddisgyblion presennol sy'n mynychu'r ysgol.

Wrth i ddysgwyr gael addysg cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen bydd yn rhaid monitro ac adolygu gallu'r ffrwd Gymraeg yn CA2 i ymdopi â'r galw cynyddol posibl am leoedd yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin.

## Cefndir


Ysgol gynradd dwy ffrwd yn Felin-foel, Llanelli yw Ysgol y Felin.

Mae'r ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed.

## Y Rhesymeg dros Newid

### Data'r Cyfnod Sylfaen (ac eithrio'r Uned Arbennig)

Mae'r graff isod yn dangos y berthynas rhwng y ffrydiau iaith a nifer y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol y Felin rhwng Ionawr 2016-2020.



Fel y gwelir o'r graff uchod, mae nifer y disgyblion sy'n mynychu ffrwd Saesneg y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol y Felin wedi bod yn gostwng ac mae nifer y disgyblion sy'n mynychu ffrwd Gymraeg y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn cynyddu.

Roedd nifer y disgyblion yn ffrwd Saesneg y Cyfnod Sylfaen yn amrywio rhwng 48-70 yn ystod Ionawr 2016-2020 tra bod nifer y disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn amrywio rhwng 33-55 o ddisgyblion.

Wrth ystyried nifer y disgyblion sy'n mynychu'r Cyfnod Sylfaen yn ei gyfanrwydd, mae 47% yn mynychu'r ffrwd Saesneg a 53% yn mynychu'r ffrwd Gymraeg (Ionawr 2020).

## Data'r Ysgol Gyfan - Rhaniad Cymraeg / Saesneg

		Cyfnod Sylfaen	Cyfnod Allweddol 2	Cyfanswm (ac eithrio'r Uned Arbennig)
<b>2020</b>	Cyfrwng Saesneg	49	81	130
	Cyfrwng Cymraeg	55	37	92
	<b>Cyfanswm</b>	<b>104</b>	<b>118</b>	<b>222</b>
<b>2019</b>	Cyfrwng Saesneg	48	88	136
	Cyfrwng Cymraeg	44	39	83
	<b>Cyfanswm</b>	<b>92</b>	<b>127</b>	<b>219</b>
<b>2018</b>	Cyfrwng Saesneg	54	88	142
	Cyfrwng Cymraeg	40	40	80
	<b>Cyfanswm</b>	<b>94</b>	<b>128</b>	<b>222</b>
<b>2017</b>	Cyfrwng Saesneg	64	78	142
	Cyfrwng Cymraeg	33	51	84
	<b>Cyfanswm</b>	<b>97</b>	<b>129</b>	<b>226</b>
<b>2016</b>	Cyfrwng Saesneg	70	67	137
	Cyfrwng Cymraeg	37	50	87
	<b>Cyfanswm</b>	<b>107</b>	<b>117</b>	<b>224</b>

### (Data CYBLD Ionawr 2020)

Fel y gwelir o'r tabl uchod, mae nifer y plant sy'n mynychu'r ffrwd Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen (ac eithrio'r uned arbennig) yn fwy na nifer y plant sy'n mynychu ffrwd Saesneg y Cyfnod Sylfaen.

Mae nifer y plant sy'n mynychu'r ffrwd Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2 (ac eithrio'r uned arbennig) yn fwy na nifer y plant sy'n mynychu ffrwd Saesneg y Cyfnod Sylfaen.

## Manteision ac Anfanteision y Cynnig

### Manteision

- Cyfle i ddisgyblion gael eu trochi'n gynnar yn y Gymraeg o oedran ifanc.
- Caniatáu i ddisgyblion gael sylfaen gadarn yn y Gymraeg.
- Darparu sgiliau ieithyddol uwch i ddisgyblion i'w datblygu ymhellach yng Nghyfnod Allweddol 2.

### Anfanteision

- Gwrthwynebiad y gymuned leol o bosib i'r cynnig
- Angen proses statudol i weithredu'r cynnig

## Risgiau a Mesurau i'w Lliniaru

Risg		Y Mesur i Lliniaru'r Risg
1.	Methu â chael cymeradwyaeth statudol i weithredu'r cynnig.	- Dilyn y canllawiau a bennwyd yn Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2018.
2.	Ymgynghoriad anfoddfaol â'r gymuned	- Datblygu strategaeth gyfathrebu ac ymgynghori'n rheolaidd i fynd i'r afael â phryderon

## Goblygiadau Ariannol - Refeniw

Caiff Ysgol y Felin ei chyllido yn unol â pholisi Ariannu Teg y Cyngor Sir a bydd yn derbyn adnoddau ar yr un sail ag unrhyw ysgol arall yn y Cyngor Sir, a hynny yn seiliedig ar nifer y disgyblion a'r cyfleusterau.

## Trefniadau Derbyn

Y Cyngor Sir yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer Ysgol y Felin

Yr Uned Derbyn Disgyblion i Ysgolion,  
Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin  
Yr Adran Addysg a Phlant,  
Adeilad 2,  
Y Prif Adeilad,  
Parc Dewi Sant  
Caerfyrddin. SA31 3HB  
Rhif Ffôn: 01267 246449

E-bost: [derbyniadau@sirgar.gov.uk](mailto:derbyniadau@sirgar.gov.uk)

## Dewisiadau Eraill a Ystyriwyd

Wrth ddatblygu dewis a ffefrir, bu'r Awdurdod yn ystyried amrywiaeth o ddewisiadau.

### Dewis 1 – Y sefyllfa bresennol - dim newid i natur y ddarpariaeth

Manteision	Anfanteision
Ni fydd angen proses statudol	Nid yw'n cefnogi nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
Ni fydd dim yn newid i'r rhanddeiliaid	Nid yw'n cyflawni amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Sir

### Dewis 2 – Newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen (Cyfnod Sylfaen Cyfrwng Cymraeg a Chyfnod Allweddol 2 Dwy Ffrwd)

Manteision	Anfanteision
Cynyddu sgiliau ieithyddol cynnar y disgyblion	Angen Proses Statudol
Cadw'r hawl i rieni ddewis y cyfrwng iaith yng Nghyfnod Allweddol 2	
Cefnogi nodau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg	

### Dewis 3 – Newid natur darpariaeth yr ysgol gyfan (Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 Cyfrwng Cymraeg)

Manteision	Anfanteision
Cynhyrchu dinasyddion dwyieithog	Angen Proses Statudol
Cyflawni nod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y sir	

## Dalgylch yr Ysgol

Ni fydd dalgylch presennol yr ysgol yn newid.

## Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd

Ni fydd unrhyw newid yn y trefniadau presennol o ran disgyblion yn trosglwyddo i addysg Uwchradd.

**Ysgolion y gallai'r cynnig i newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol y Felin effeithio arnynt:**

		<b>Ysgol Gynradd Dyffryn y Swistir</b>	<b>Ysgol Gynradd Dafen</b>	<b>Ysgol Gynradd Dewi Sant</b>	<b>Ysgol Gynradd Pen-y-gaer</b>	<b>Ysgol Gynradd Hen Heol</b>	<b>Ysgol Gynradd Pum Heol</b>
<b>Lleoliad yr Ysgol</b>		Heol Beili Glas, Dyffryn y Swistir, Felin-foel Llanelli SA14 8DS	Lôn yr Ysgol Dafen Llanelli SA14 8LL	Coedlan Bryndulais Llanelli SA14 8RS	Coedlan Bryndulais Llanelli SA14 8RS	Hen Heol Llanelli SA15 3HW	Pum Heol Llanelli SA15 5EX
<b>Sir</b>		Sir Gaerfyrddin					
<b>Ystod Oedran</b>		4-11	3-11	3-11	3-11	4-11	4-11
<b>Categori'r Ysgol</b> (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyr, Gwirfoddol a Reolir)		Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol
<b>Categori Iaith</b>		Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg
<b>Nifer y disgyblion ar y gofrestr (lonawr 2020)</b>	<b>Oedran Meithrin</b>	14	24	79	18	17	7
	<b>Derbyn – B.6</b>	222	130	392	172	154	80
	<b>Cyfanswm</b>	236	154	471	190	171	87
<b>Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol</b>	<b>lonawr 2019</b>	232	164	482	206	173	91
	<b>lonawr 2018</b>	236	161	467	211	187	92
	<b>lonawr 2017</b>	239	163	440	222	153	95



	<b>Ionawr 2016</b>	238	141	434	219	174	90
<b>Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion</b>	<b>Ionawr 2021</b>	240	156	465	197	163	88
	<b>Ionawr 2022</b>	246	160	458	199	153	95
	<b>Ionawr 2023</b>	241	158	458	196	148	96
	<b>Ionawr 2024</b>	238	162	467	194	150	94
	<b>Ionawr 2025</b>	242	160	464	196	150	93
<b>Nifer y Lleoedd</b>		243	163	419	233	240	101
<b>Cost fesul disgybl</b>		£3,573	£3,707	£3,357	£3,589	£3,716	£3,688
<b>Cyllideb yr Ysgol</b>		£870,000	£550,000	£1,504,000	£664,000	£635,000	£321,000
<b>Canlyniad Arolygiad Estyn</b>		<a href="#">ESTYN</a>	<a href="#">ESTYN</a>	<a href="#">ESTYN</a>	<a href="#">ESTYN</a>	<a href="#">ESTYN</a>	<a href="#">ESTYN</a>
<b>Categori Cyflwr Adeilad</b>		B	C	C	B	B	C

**Allwedd Cyflwr Adeilad:**

Gradd A	Da. Perfformio fel y bwriadwyd ac yn gweithredu'n effeithlon.
Gradd B	Boddhaol: Perfformio fel y bwriadwyd ond yn dangos mân ddirywiad.
Gradd C	Gwael. Arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd.
Gradd D	Gwael. Oes wedi dod i ben a/neu risg ddifrifol o fethiant ar ddigwydd.

# Gwerthusiad o'r Trefniadau Presennol

## Ysgol y Felin

Mae Ysgol y Felin yn Ysgol Gymunedol Dwy Ffrwd mewn ardal ddifreintiedig iawn ac ardal Cymunedau yn Gyntaf.

Mae'n darparu ar gyfer plant 4-11 oed.

Ar hyn o bryd mae 222 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Cyfanswm nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol gan gynnwys disgyblion sy'n mynychu'r uned arbennig yw 261.

Mae Ysgol y Felin yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar draws dwy ffrwd. Mae'r rhieni yn dewis ffrwd iaith o'r dosbarth Derbyn ymlaen. Ar hyn o bryd caiff disgyblion eu haddysgu ar draws 4 dosbarth. Mae 4 dosbarth Cymraeg a 5 dosbarth Saesneg oherwydd bod nifer fawr o ddisgyblion wedi dechrau yn yr ysgol ym Mlwyddyn 3 yn ystod y flwyddyn a'r angen i rannu'r niferoedd er mwyn lleihau maint dosbarthiadau.

Mae'r plant yn y dosbarthiadau Saesneg yn dysgu Cymraeg ail iaith ac mae'r dosbarthiadau Cymraeg yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 222 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac mae 92 ohonynt yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a 130 drwy gyfrwng y Saesneg. Mae 40 o ddisgyblion ychwanegol yn cael eu dysgu mewn canolfan anghenion addysgol arbennig (AAA) sy'n cynnwys dau ddosbarth asesu ac arsylwi yn y Cyfnod Sylfaen, uned iaith a dosbarth Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol (Canolfan ADD). Mae'r Canolfan yn uned bwrpasol sydd ynghlwm wrth adeilad yr ysgol ac mae'n cynnwys dosbarth yr Uned Iaith a'r dosbarthiadau Arsylwi ac Asesu hefyd.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Medi 2016.

## **Safonau**

Mae bron pob disgybl o'r cyfnod sylfaen yn gwneud y cynnydd disgwylidig neu'n well ar draws pob maes dysgu o'u manau cychwyn. Mae dangosydd y cyfnod sylfaen yn dangos tuedd gynyddol ac mae'n uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae perfformiad ar y deilliannau uchaf yn parhau i fod yn isel iawn ar draws y ddwy iaith a datblygiad mathemategol.

Mae perfformiad ar y deilliannau uchaf mewn Datblygiad Personol a Chymdeithasol yn uchel iawn, sef 90.9%. Ar y cyfan, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd disgwylidig neu'n well rhwng y cyfnod sylfaen a diwedd CA2. Mae safonau Cymraeg yn dda ac mae bron pob disgybl yn cyflawni'r lefel disgwylidig ac mae'r lleiafrif yn cyflawni ar lefelau uwch. Fodd bynnag, mae data diwedd cyfnod allweddol 2 mewn pynciau eraill yn dangos tuedd ar i lawr ac mae'n is na chyfartaledd yr awdurdod lleol.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos sgiliau llythrennedd da ar draws y gwahanol bynciau a meysydd dysgu. Mae cynnydd disgyblion mewn sgiliau llythrennedd yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws yr ysgol yn dda ar y cyfan. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus am eu gwaith ac mae disgyblion sy'n dechrau â sgiliau ieithyddol lefel isel yn datblygu'n gyflym i gymryd rôl ystyrlon mewn trafodaeth yn yr ystafell ddosbarth.

Mae sgiliau darllen yn y ddwy iaith yn datblygu'n gyson ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio llawer o dechnegau addas i'w helpu i ddeall yr hyn y maent yn ei ddarllen. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn darllen yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn effeithiol o ystod eang o ffynonellau. Gallant ddefnyddio llyfrau a ffynonellau electronig yn effeithiol i ymchwilio i wybodaeth ar gyfer eu testunau dosbarth. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu'r sgiliau meddwl ar lefel uwch sydd gan y disgyblion i gefnogi eu cynnydd yn y dosbarth a'u dealltwriaeth o destun.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu darnau ysgrifennu o safon dda yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan ddefnyddio brawddegau wedi'u strwythuro'n dda mewn dilyniant. Yn gyffredinol, maent yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir, ac yn defnyddio technegau ffonetig yn briodol i roi cynnig ar sillafu geiriau mwy anghyfarwydd. Mae disgyblion sy'n fwy abl yn ysgrifennu'n estynedig at wahanol ddibenion mewn gwahanol feysydd o'r cwricwlwm. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 yn y Gymraeg, mae bechgyn a merched yn ysgrifennu'n dda mewn gwahanol *genres* ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae data 2018-19 yn dangos bod bechgyn yn tangyflawni mewn ysgrifennu Saesneg ond yn cyflawni'n well na merched mewn llafaredd. Yn gyffredinol, mae sillafu ac atalnodi yn cyd-fynd ag oedran a gallu disgyblion.

### **Safonau Llesiant:**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan yn weithredol mewn gwersi ac maent yn awyddus i ddysgu. Mae bron pob un ohonynt yn cydweithio ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Dangosant fwynhad amlwg mewn dysgu, yn enwedig mewn gwersi ymarferol, er enghraifft wrth archwilio arteffactau Celtaidd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn hapus yn yr ysgol. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n iach a diogel, gan gynnwys yr angen i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn gyfrifol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod am bwysigrwydd bwyta diet cytbwys, yfed yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae dros hanner ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys rownderi, pêl-droed a rhôl-sglefrio. Mae hyn yn atgyfnerthu eu dealltwriaeth o fyw yn iach.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod beth i'w wneud os byddant yn teimlo'n bryderus neu os bydd ganddynt broblem. Maent wedi gweithio gyda'r pennaeth i ddatblygu system 'cyfeillion maes chwarae' ac wedi sefydlu 'mainc cyfeillgarwch' i sicrhau bod disgyblion yn mwynhau amseroedd chwarae.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn eithriadol o dda. Trwy raglen o werthoedd cytûn, mae disgyblion yn deall pwysigrwydd dangos parch ac ystyriaeth tuag at oedolion ac at ei gilydd. Mae hon yn nodwedd nodedig yn yr ysgol. Mae gan y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco ran weithredol yn yr ysgol ac maent yn cynrychioli anghenion y disgyblion yn dda. Mae'r cyngor ysgol wedi bod â rôl ragweithiol mewn rheoli ymddygiad ar y maes chwarae ac mae wedi cyflwyno 'clwb cinio' a neilltuo ardal o'r maes chwarae ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed. Mae ganddo rôl bwysig hefyd o ran gweithredu ymateb yr ysgol i fenter siarter iaith Llywodraeth Cymru, ac mae'n mynd ati i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o gwmpas yr ysgol. Mae'r pwyllgor eco wedi bod yn rhagweithiol o ran datblygu gweithgareddau 'gwyrdd', fel dylunio ardaloedd plannu ar dir yr ysgol, a gweithio gyda'r gymuned leol i 'godi sbwriel'. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd. Mae presenoldeb wedi parhau'n gyson drwy 2018 -19, sef 91.7%, sydd ychydig yn uwch na chanran y flwyddyn flaenorol. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim hefyd wedi parhau'n gyson, sef 89.8%.

### **Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae ansawdd y gwaith addysgu ar draws yr ysgol, a'i effaith ar ddysg a chynnydd bron pob un o'r disgyblion, yn gyson dda.

Mae bron pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth drylwyr am alluoedd y disgyblion a'u hanghenion unigol, sy'n eu galluogi i ddefnyddio strategaethau effeithiol i symud y dysgu ymlaen. Yn yr achosion hyn, ceir cydbwysedd da rhwng tasgau sy'n cael eu harwain gan yr athro/athrawes a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan y disgybl i gynnal cyflymdra bywiog a rhoi ffocws i'r disgyblion mewn sesiynau dysgu. Mae athrawon yn defnyddio holi effeithiol i herio a chymell disgyblion. O ganlyniad, yn y rhan fwyaf o wersi, mae disgyblion yn deall beth mae'r athrawon yn ei ddisgwyl ohonynt, ac mae athrawon yn trafod gyda nhw pa mor dda y maent wedi cyflawni.

Mae bron pob un o'r athrawon yn darparu tasgau ar lefelau sy'n briodol ar gyfer ystod o alluoedd gwahanol. Mae'r amrywiaeth hwn o weithgareddau'n cynnal diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Mae bron pob un o'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol iawn o adnoddau TGCh i gefnogi eu haddysgu. Bron ym mhob dosbarth, ceir perthynas weithio gadarnhaol rhwng staff a disgyblion. Mae hyn yn annog y rhan fwyaf o ddisgyblion i gymryd rôl weithredol yn y wers. Mae bron pob un o'r athrawon yn rheoli ymddygiad yn dda iawn.

Mae marcio'r rhan fwyaf o athrawon yn effeithiol o ran nodi ffyrdd i ddisgyblion wella'u gwaith. Mewn llythrennedd, mae hyn yn galluogi disgyblion i ailddrafftio eu gwaith yn dda. Ceir cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill, ac mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio technegau asesu ar gyfer dysgu yn briodol mewn llawer o weithgareddau. Fodd bynnag, mewn rhai gwersi, nid yw disgyblion yn gwybod sut gallant wella eu gwaith bob amser o ganlyniad i hyn.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac Addysg Grefyddol. Mae llawer o athrawon yn cynnwys disgyblion mewn cynllunio gweithgareddau tymhorol ac yn ennyn diddordebau'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Yn yr enghreifftiau gorau, maent

yn dewis themâu yn ofalus ac yn cynllunio gweithgareddau trawsgwricwlaidd ysgogol a chyffrous.

Mae'r ysgol yn gweithredu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol llwyddiannus yn barhaus. Mae'r rhain yn rhan annatod o dargedau rheoli perfformiad yr holl staff. Mae'r pennaeth wedi trefnu i'r holl staff gynnal ymchwil weithredu yn unol â'r safonau proffesiynol cenedlaethol newydd ar gyfer addysgu ac arwain. Maent yn cael eu cynnwys yn y cylch rheoli perfformiad. Mae arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu'r gweithlu. Er enghraifft, drwy gefnogi aelodau ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith a mentora aelodau o staff i sicrhau cysondeb mewn addysgeg a safonau addysgu ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da iawn o'r ardal ac mae'n aml yn cyflwyno thema newydd yn dilyn ymweliad â thirnod neu drwy gynnwys darparwyr allanol.

Mae athrawon yn cynllunio, yn datblygu ac yn gwella ymwybyddiaeth disgyblion o'r iaith Gymraeg, ei diwylliant a'i thraddodiadau yn gyson. Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio Cymraeg achlysurol yn ystod gwersi a'r tu allan i'r ystafelloedd dosbarth, ac maent yn annog disgyblion i wneud yr un fath. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn darparu digon o strwythur i ddisgyblion ddysgu oddi wrtho yn effeithiol. Ceir cynllun gwaith clir ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn y dosbarthiadau cyfrwng Saesneg i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ethos Cymreig yn effeithiol, ac yn datblygu'r dimensiwn Cymreig yn llwyddiannus ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, o ganlyniad i gymorth gan arlunydd lleol, mae disgyblion yn creu modelau 3D yn darlunio Terfysgoedd Beca. Mae bron pob un o'r athrawon, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen, yn cynllunio a defnyddio'r ardaloedd yn yr awyr agored i wella dysgu ac addysgu. Er enghraifft, trwy greu gwesty i chwilog, mae disgyblion yn dysgu am greaduriaid bach a'u cynefinoedd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol trwy ystod o fentrau a gweithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol, er enghraifft trwy gompostio gwastraff ysgol, cynnal cysylltiadau ag ysgol ym Malawi, a gweithio i hyrwyddo cynnyrch cynaliadwy, fel y rheiny sydd ar gael o archfarchnadoedd lleol, sef coffi, te, a ffrwythau.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae addysg bersonol a chymdeithasol yn gryfder ac mae pwyslais amlwg ar draws yr ysgol gyfan ar hyrwyddo a chefnogi llesiant disgyblion. Mae athrawon yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Mae gweithgareddau'n cynnwys cyd-addoli rheolaidd, hyrwyddo gwerthoedd a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol lleol. Mae pobl sy'n ymweld â'r ysgol yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr agweddau hyn hefyd.

Mae'r staff yn cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda trwy ddarparu ystod eang o weithgareddau ymyrraeth effeithiol ar eu cyfer. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Mae pob un o'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn nodi'r rhai mwy agored i niwed yn eu plith yn gynnar. Mae gan yr ysgol hanes da iawn o wella cyflawniad dysgwyr sy'n agored i niwed ac mae'n ymwybodol o'r angen i dargedu

disgyblion sy'n ymylu ar hyn er mwyn gwella eu cynnydd ymhellach. Bydd hyn yn gwella perfformiad o ran y canlyniadau a'r lefelau uchaf. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hybu bwyta ac yfed yn iach. Mae disgyblion yn cynorthwyo ag ystod o fentrau, gan gynnwys trefnu'r 'siop ffrwythau' a gwerthu poteli dŵr wedi'u dylunio'n arbennig. Ceir llawer o weithgareddau sy'n hyrwyddo addysg iechyd, gan gynnwys creu wynebau a phosteri ffrwythau i argymhell bwyta deiet cytbwys.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae pob un o'r staff yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein, er enghraifft trwy sicrhau eu bod yn dewis cyfrinair diogel wrth ddefnyddio'r rhyngwyd.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion. Mae hyn yn galluogi athrawon a disgyblion i gytuno ar dargedau priodol ar gyfer gwella, y maent yn eu rhannu'n effeithiol gyda rhieni. Mae adroddiadau diwedd blwyddyn i rieni yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd eu plant a'u targedau ar gyfer y flwyddyn ganlynol, ac maent yn bodloni'r gofynion.

### **Arweinyddiaeth a Rheolaeth**

Mae'r pennaeth, arweinwyr eraill a staff wedi datblygu gweledigaeth ar y cyd ac mae strategaeth glir iawn i wella deilliannau ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr. Mae arweinwyr yn dangos gallu cryf iawn i gynllunio a gweithredu newid ac maent yn cynnwys yr holl staff a phartneriaid eraill yn effeithiol iawn yn y broses newid.

Mae'r hunanarfarnu yn sefydledig iawn ac yn effeithiol wrth gyfrannu at wella safonau, dysgu ac addysgu. O ganlyniad, mae llawer o flaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol y llynedd wedi'i gyflawni neu maent wedi gwneud cynnydd cryf a da iawn. Mae'r arweinwyr a'r staff yn effeithiol yn y modd y maent yn defnyddio'r holl ddata perfformiad sydd ar gael a'r dystiolaeth am ansawdd y dysgu a'r addysgu a gwaith y disgyblion i nodi cryfderau a gosod blaenoriaethau gwella. Fodd bynnag, mae angen crynhoi'r holl waith dadansoddi data ar gyfer yr adroddiad hunanarfarnu.

Ceir proses sefydledig ar gyfer rheoli perfformiad pob un o'r staff. Mae uwch arweinwyr yn defnyddio'r broses yn effeithiol i gefnogi datblygiad proffesiynol staff ac mae targedau'n cysylltu'n gryf â'r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae enghreifftiau da yn cynnwys rhoi'r Siarter Iaith Gymraeg a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar waith. Mae'r mentrau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion mewn Cymraeg a TGCh.

Mae gan y Llywodraethwyr ddealltwriaeth dda iawn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella ac maent yn effeithiol iawn wrth gynnal a herio perfformiad yr ysgol.

### **Effaith y cynnig ar yr uchod**

Ar hyn o bryd mae pum dosbarth prif ffrwd Cymraeg a Saesneg, ac mae dau grŵp oedran yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau. Mae'r plant yn y dosbarthiadau Saesneg yn dysgu Cymraeg ail iaith ac mae'r dosbarthiadau Cymraeg yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 222 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac mae 92 ohonynt yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a 130 drwy gyfrwng y Saesneg. Mae 40 o ddisgyblion ychwanegol yn cael eu dysgu mewn canolfan anghenion addysgol arbennig (AAA).

Bydd newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg yn sicrhau bod yr ysgol yn symud ar hyd continwwm Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol.

# Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

## Ysgol y Felin

### Dadansoddiad o'r Dalgylch – Data CYBLD Ionawr 2020

Mae gan bob ysgol ardal y mae'n ei gwasanaethu, a adwaenir fel dalgylch yr ysgol. Disgwylir i bob ysgol ddarparu lle ar gyfer disgyblion sy'n byw yn ei dalgylch ac mae'n ofynnol i ysgolion roi sylw i'r galw parhaus hwn.

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n anfon eu plant i'r ysgol leol ond mae gan rieni hawl i fynegi eu bod yn dymuno dewis ysgol wahanol.

### **Disgyblion sy'n mynychu'r ysgol o'r tu mewn i'r dalgylch/o'r tu allan i'r dalgylch**

Ar sail data CYBLD Ionawr 2020, roedd y data daearyddol ynghylch dosbarthiad disgyblion dalgylch Ysgol y Felin yn dangos, o'r 222 o ddisgyblion oedd ar gofrestr yr ysgol (**ac eithrio'r Uned Arbennig**), fod 91 yn byw yn y dalgylch a bod y 131 disgybl arall yn dod o'r tu allan i'r dalgylch.

### **Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill.**

Ar sail data CYBLD Ionawr 2020, roedd 163 o'r disgyblion oedd yn byw yn nalgylch Ysgol y Felin yn mynychu ysgolion eraill.

Gan gymryd i ystyriaeth y 91 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu Ysgol y Felin, a'r 163 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch ond sy'n mynychu ysgolion eraill, ceir cyfanswm o 254 o ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol y Felin.

### **Cyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clybiau ar ôl ysgol / clwb brechwast / llyfrgell gymunedol.**

Cynigir nifer o glybiau yn Ysgol Y Felin. Mae gan yr ysgol glwb brechwast a gynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ac sy'n hyrwyddo ethos Cymreig sy'n dathlu diwylliant Cymru trwy wrando ar gerddoriaeth Gymraeg a darllen llyfrau a chylchgronau Cymraeg. Ceir hefyd glwb ar ôl ysgol a gaiff ei redeg gan siaradwyr Cymraeg lle darperir amrywiol weithgareddau ar gyfer y disgyblion, yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar safle'r ysgol ceir Ysgol Feithrin Mudiad Meithrin/breifaf sydd ar hyn o bryd yn darparu hyd at 30 awr o ofal ac addysg i ddisgyblion o ddwy oed i fyny trwy gyfrwng y Gymraeg.

### **Cyfleusterau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clwb /grŵp chwarae / Cyngor Cymuned**

Mae'r ysgol wedi sefydlu ystod eang o bartneriaethau sy'n cael effaith fuddiol ar lesiant a chyrhaeddiad disgyblion. Ceir cyfathrebu da iawn gyda rhieni. Mae'r ysgol yn rhoi



llawer o gyfleoedd iddynt gefnogi dysgu eu plant, fel cynorthwyo â'u gwaith ysgol trwy'r rhwydwaith TGCh. Mae rhieni'n gefnogol ac mae staff a llywodraethwyr yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau at fywyd yr ysgol.

Yr ysgol yw canolbwynt ei chymuned ac mae disgyblion yn gwneud defnydd da o'r ardal i gyfoethogi eu profiadau cwricwlwm, er enghraifft trwy ymweliadau â manau addoli lleol, a manau gwaith, fel y gronfa ddŵr leol, Parc y Scarlets a Pharc Howard. Mae'r cysylltiadau cryf iawn â'r lleoliad cyn-ysgol, sydd wedi'i leoli ar y safle, yn sicrhau bod disgyblion iau yn ymgynefino yn yr ysgol yn hyderus. Mae cyfleoedd i'r plant cyn-ysgol gymryd rhan mewn sesiynau datblygu iaith a chwarae cyn dechrau'r ysgol yn hynod werthfawr.

Mae rhaglenni pontio effeithiol ar waith gyda'r ysgolion uwchradd lleol i sicrhau bod disgyblion yn cael eu paratoi'n dda i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r gwaith cymedroli gyda'r ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo yn sicrhau dibynadwyedd asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol.

Mae partneriaeth yr ysgol ag asiantaethau arbenigol allanol i gynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd yn gryfder yn yr ysgol.

### **Effaith y cynnig ar yr ysgol/y gymuned**

Bydd gweithredu'r Cyfnod Sylfaen trwy gyfrwng y Gymraeg yn sicrhau bod cymuned Felin-foel, Llanelli yn parhau i ffynnu fel cymuned ddwyieithog a bydd yn helpu i wireddu uchelgais genedlaethol Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd y cynnig yn rhoi cyfle i'r holl ddisgyblion sy'n ymuno â'r ysgol ddatblygu eu sgiliau Cymraeg o oedran cynharach.

Mae cymuned Felin-foel, Llanelli yn un ddwyieithog ei natur. Er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gallu elwa'n llawn o'r gymuned y maent yn perthyn iddi, mae'n hanfodol bod ganddynt sgiliau sylfaenol cadarn i allu cyfathrebu'n anffurfiol yn y Gymraeg.

## **Atodiad B – Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

Mae'r cynnig hwn yn ategu gweledigaeth ac amcanion y Cyngor ynghylch addysg Cyfrwng Cymraeg, yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) Sir Gaerfyrddin, 2017–2020. Bydd y cynnig yn rhoi mwy o gyfleoedd i gael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg yn nalgylch Ysgol y Felin gan sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel bod pob disgybl yn datblygu i fod yn rhugl a hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

### **Categori Iaith**

Mae Ysgol y Felin yn Ysgol Gynradd Dwy Ffrwd.

### **Safonau\***

Yn y Cyfnod Sylfaen, caiff disgyblion eu hasesu mewn gwahanol feysydd dysgu. Yn seiliedig ar ddata 2019, roedd 80.0% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Ddeilliant 5 mewn 'Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (yn y Gymraeg)'.

Yng Nghyfnod Allweddol 2, caiff disgyblion eu hasesu ym mhob un o'r pynciau craidd. Yn seiliedig ar ddata 2019, roedd 100% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Lefel 4 mewn Cymraeg Iaith Gyntaf.

*\* Ni chynhaliwyd unrhyw aseidiadau Athrawon Cenedlaethol yn 2020 oherwydd effaith barhaus yr achosion o Goronafeirws. Am y rheswm hwn, defnyddiwyd aseidiadau 2019.*

### **Gweithgareddau ar ôl ysgol sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg**

Mae'r ysgol yn cymryd rôl weithredol a balchder wrth weithredu cynllun y Siarter Iaith sydd yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffyrdd anffurfiol. Mae'r ysgol hefyd yn weithgar iawn gyda mudiad yr Urdd sy'n trefnu teithiau preswyl blynyddol i'w gweryslyoedd yn Llangrannog ar gyfer disgyblion o'r ddwy ffrwd, cystadlu mewn nifer o weithgareddau chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg a chymryd rhan yn yr Eisteddfod Gylch, yr Eisteddfod Sir a'r Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn. Mae disgyblion o'r ddwy ffrwd hefyd yn cael cyfleoedd i fynd i Jambori'r Urdd. Mae'r ysgol yn cynnal clybiau gweithgareddau bob wythnos. Cymraeg yw cyfrwng ieithyddol y clybiau hynny a thrwy hyn gallant weld bod y Gymraeg yn perthyn mewn cyd-destun celf, cynaliadwyedd, coginio, creadigol a chwaraeon. Mae'r ysgol yn aml yn gwahodd cwmnïau allanol i ddod i redeg gweithdai drama ac i gynnal perfformiadau ar gyfer y disgyblion. Cynhelir y perfformiadau a'r gweithdai hyn trwy gyfrwng y Gymraeg fel bod y disgyblion yn gwerthfawrogi'r ffaith fod y Gymraeg yn iaith fyw.

## **Atodiad C – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

### **Cyngor Sir Caerfyrddin Asesu Effaith**

#### **Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd y deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol ac yn rhoi un Ddeddf sengl yn eu lle. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn dileu anghysonderau ac mae'n ei gwneud yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb newydd sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'), sy'n cymryd lle'r dyletswyddau unigol yn ymwneud â chydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd. Daeth hon i rym ar 5 Ebrill 2011.

#### **Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?**

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus, a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus, yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan annatod o ddylunio polisiau a darparu gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd hyn yn sicrhau gwell deilliannau i bawb.

Mae'r dyletswyddau yn rhwymedigaethau cyfreithiol. Os na chyflawnir y dyletswyddau, gall arwain at her gyfreithiol yn erbyn awdurdodau.

O dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb, mae dyletswyddau cyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus i roi 'sylw priodol' i'r angen am ddileu gwahaniaethu ac i hybu cydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd, gan gynnwys ailbennu rhywedd, yn ogystal â hybu cysylltiadau hiliol da. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd newydd sector cyhoeddus sy'n ymestyn ei chwmpas i oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, a chrefydd neu gred. Mae'r gyfraith yn mynnu bod y ddyletswydd hon i roi 'sylw priodol' yn cael ei dangos yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae'n bwysig hefyd nodi fod awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau cydraddoldeb yn debygol hefyd o fod yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol ac felly mae'n ddoeth ystyried fel rhan o'r un broses yr effaith bosibl y gallai penderfyniadau ei chael ar hawliau dynol.

### **Dull Sir Gaerfyrddin o ran yr Effaith ar Gydraddoldeb**

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr effaith bosibl y bydd ei bolisiâu a'i arferion arfaethedig yn ei chael ar gydraddoldeb, ac er mwyn dangos tystiolaeth ein bod wedi gwneud hynny, bydd angen i bob cynnig gael ei ategu gan yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb atodedig. Os yw'r asesiad hwn yn clustnodi effaith sylweddol, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o fanylion.

### **Cyhoeddi adroddiad ynghylch asesiadau**

Os yw'n amlwg o'r asesiad fod yr effaith debygol ar allu'r Awdurdod i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn un sylweddol, bydd rhaid iddo gyhoeddi adroddiad.

### **Asesiadau Cychwynnol a Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Mae'r Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb (atodiad 1) yn ddull syml a chyflym o asesu effaith polisi, swyddogaeth, gweithdrefn, penderfyniad, gan gynnwys toriadau ariannol, ar un neu ragor o'r nodweddion gwarchoddedig.

Mae'n rhaid i'r Rheolwr Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y polisiâu, y swyddogaethau, y gweithdrefnau a'r penderfyniadau ariannol newydd neu ddiwygiedig perthnasol, gynnal o leiaf Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a chwblhau Asesiad manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb lle bo hynny'n berthnasol (atodiad 2). Mae'n rhaid atodi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn bapur cefndir gyda'r adroddiadau i'r Bwrdd Gweithredol ac i'r Pwyllgor Craffu.

## **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Y broses sydd i'w dilyn lle nodwyd goblygiadau o ran Adnoddau Dynol**

Y rheolwr gwasanaeth/rheolwr arweiniol yn nodi'r polisi, y swyddogaeth, y weithdrefn neu newid polisi.



Cynnal asesiad cychwynnol neu asesiad manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Gweler atodiad 1 ac, os yw'n ofynnol, ewch ymlaen i gwblhau atodiad 2



Polisi Adnoddau Dynol newydd  
neu newid polisi Adnoddau  
Dynol  
Rhannu'r Asesiad a'r polisi drafft â'r tîm Adnoddau Dynol strategol gan ofyn am eu sylwadau.



Newid trefniadaeth/ailstrwythuro  
Rhoi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a'r newidiadau a gynigir, gerbron y panel adolygu newid a gofyn am sylwadau.



Eu rhoi'r i'r Tîm Polisi a Phartneriaeth i'w cymeradwyo  
([cydraddoldeb@sirgar.gov.uk](mailto:cydraddoldeb@sirgar.gov.uk))



Clustnodi newidiadau/rhagor o waith i'w gwblhau neu gyfeirio'r mater at y Gwasanaethau Cyfreithiol



## Templed ar gyfer Aseiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb Atodiad 1

<b>Adran:</b> Addysg a Phlant	<b>Cwblhawyd gan (arweinydd):</b> Sara Griffiths	<b>Dyddiad yr aseiad cychwynnol:</b> Tachwedd 2020 <b>Dyddiadau adolygu:</b> Gorffennaf 2021
<b>Y maes a asesir: (h.y. enw'r polisi, y swyddogaeth, y weithdrefn, yr arfer neu benderfyniad ariannol)</b>	Cynnig i Newid Natur y Ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Ysgol y Felin.	
<b>A yw'r swyddogaeth/polisi, y weithdrefn, yr arfer neu'r penderfyniad dan sylw yn bod eisoes neu a yw'n un newydd?</b>	Cynnig ynghylch Ad-drefnu Ysgolion – Rhaglen Moderneiddio Addysg	
<b>Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth lunio'r aseiad a'r polisi? (rhestrwch yn unig)</b>		
<ul style="list-style-type: none"><li>• Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif</li><li>• Y Rhaglen Moderneiddio Addysg</li><li>• Côt Trefniadaeth Ysgolion 2018</li><li>• Data CYBLD 2020</li><li>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</li></ul>		

<b>1. Disgrifiwch nodau, amcanion neu ddiben y swyddogaeth/polisi, yr arfer, y weithdrefn neu'r penderfyniad dan sylw a phwy fydd yn cael budd o hyn.</b>	Mae'r cynnig yn ceisio ymateb i nod Llywodraeth Cymru o greu Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin a gweledigaeth yr awdurdod o greu Sir Gaerfyrddin ddwyieithog trwy gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol y Felin.
---	--

		2. Faint o effaith fydd ar bob grŵp/nodwedd warchoddedig o ran tri nod y ddyletswydd? Nodwch a fydd yn cael effaith fawr, effaith ganolig, effaith fach neu ddim effaith o gwbl.	3. Clustnodwch y risg neu'r effaith gadarnhaol bosibl ar gyfer pob grŵp/nodwedd warchoddedig?		4. Os oes effaith negyddol anghymesur, pa ffactorau lliniarol ydych wedi'u hystyried?
			Y Risgiau	Yr Effeithiau Cadarnhaol	
<p><b>Mae'n ofynnol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod y Cyngor yn rhoi "sylw priodol" i'r angen i wneud y canlynol:-</b></p> <p><b>(1)</b> dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio anghyfreithlon;</p> <p><b>(2)</b> hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau ; a</p> <p><b>(3)</b> meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau (gweler y nodiadau esboniadol)</p>					
<b>Nodweddion gwarchoddedig</b>	<b>Oedran</b>	Effaith fach	Niwtral	Bydd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu trochi yn y Gymraeg.	
	<b>Anabledd</b>	Effaith fach	Bydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth priodol yn ôl yr angen.		
	<b>Ailbennu rhywedd</b>	Dim	Niwtral		
	<b>Hil</b>	Dim	Niwtral		
	<b>Crefydd/Cred</b>	Dim	Niwtral		
	<b>Beichiogrwydd a mamolaeth</b>	Dim	Niwtral		
	<b>Cyfeiriadedd Rhywiol</b>	Dim	Niwtral		

<b>Rhyw</b>	Dim	Niwtral		
<b>Yr Iaith Gymraeg</b>	Effaith fach	Niwtral	Y cynnig yw newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen i fod yn gyfrwng Cymraeg, a fydd yn ategu gweledigaeth y Cyngor a'i nodau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg fel y'u hamlinellir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) Sir Gaerfyrddin 2017–2020.	
<b>Unrhyw faes arall</b>	Effaith fach	Niwtral		

**5. A fu unrhyw ymgynghori/ymgysylltu o ran y nodweddion gwarchoddedig priodol?**

DO  NADDO

Mae'r Swyddog Prosiect wedi cysylltu â Phennaeth, Staff a Rhieni Ysgol Gynradd Ysgol y Felin o ran y cynnig. Ymgynghorir yn llawn â'r holl randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol.

**6. Pa gam/gamau a gymerwch i leihau unrhyw effeithiau negyddol anghymesur, os bydd rhai? Sicrhau bod yr holl randdeiliaid allweddol yn cael gwybodaeth lawn drwy gydol y broses statudol.**

**7. Caffael**

**Ar ôl crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau o ran caffael i'r gweithgaredd, i'r cynnig neu i'r gwasanaeth? Amherthnasol Gofynnir i chi gynnwys canfyddiadau'r asesiad hwn yn eich cynllun caffael. Cysylltwch â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael rhagor o gyngor.**



**8. Adnoddau Dynol**

Ar ôl crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau dynol i'r gweithgaredd, i'r cynnig neu i'r gwasanaeth? Gan y bydd newid i natur y ddarpariaeth, mae'n bosibl y bydd angen staff ychwanegol. Fodd bynnag, rhoddir sylw i hyn wrth i'r cynllun datblygu symud ymlaen, a byddwn yn ymgynghori'n llawn ag Adnoddau Dynol.

**9. Ar sail y wybodaeth yn adran 2 a 6, a ddylai Aseiad Manwl o Effaith gael ei gynnal o ran y swyddogaeth/y polisi/y weithdrefn/yr arfer neu'r penderfyniad?** (argymhellir bod hyn yn digwydd os oes mwy nag un effaith fawr wedi'i nodi yn adran 2)

DYLID 

NA DDYLID

**Cymeradwywyd gan:**  
Pennaeth y Gwasanaeth

Simon Davies

Dyddiad: Tachwedd 2020

